Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

1 Hydref, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – dyma'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y CBC.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y CBC sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau cysylltiedig ar gyfer y CBC. Er mai tasg i'r Is-bwyllgor ei gwneud yw datblygu polisïau trafnidiaeth, cedwir pŵer cymeradwyo neu adolygu i'r CBC.

4.2. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys 6 Aelod pleidleisio sy'n dal y portffolio ar gyfer polisi trafnidiaeth o bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol.

4.3. Mae'r swyddogaethau a nodir yn y paragraff dan y pennawd 'Rôl' yn y Cylch Gorchwyl yn cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor o'r CBC. Wrth gyflawni swyddogaethau paratoi strategaethau rhanbarthol, gan gynnwys Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd angen i'r Is-bwyllgor weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, grwpiau defnyddwyr, diwydiant a rhanddeiliaid eraill i gydlynu cynllunio a gweithrediadau trafnidiaeth ar draws y rhanbarth ar ran y CBC.

4.4. Mae natur strategol rôl yr Is-bwyllgor yn darparu ar gyfer datblygu polisi ar sail ranbarthol gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill. Yn allweddol i'r gwaith cyflawni yw bod yr Is-bwyllgor yn rhoi cyngor strategol i'r CBC ymhellach i'w gyfeiriad. Er mwyn monitro'r cynnydd hwn, bydd yr Is-bwyllgor yn darparu adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r CBC ac yn darparu diweddariadau rheolaidd ar reoli adnoddau a datblygu polisi gan ystyried ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau statudol eraill.

4.5. Cefnogir yr Is-bwyllgor gan Grŵp Cynghori ar Drafnidiaeth dan arweiniad swyddogion. Y bwriad yw y bydd y Grŵp Cynghori hwn yn cael ei arwain gan swyddog o ba bynnag Gyngor sy'n cael ei gynrychioli drwy'r Cadeirydd etholedig. Bydd y swyddog arweiniol hwn yn cysylltu â'r Cadeirydd i roi gwybod iddynt am raglennu gwaith a chyflawni prosiectau. Bydd y Grŵp Cynghori yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau perthnasol, ac rheoli adroddiadau i'r Is-bwyllgor. Ni all yr Is-bwyllgor ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau gwneud penderfyniadau i unrhyw is-grŵp o'r fath, ond gall, os yw'n dymuno, sefydlu is-grwpiau eraill neu grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi ei waith.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Ymdrinnir a’r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yn yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."